| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **13 Medi 2016** |
| **TEITL** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb.** |
| **PWRPAS** | **Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |

**1.0 Cyflwyniad**

Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y meysydd rwy'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

**2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol**

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2016-17.

Er mwyn atgoffa aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi mewn glas.

**T7 - Cydymdrechu yn erbyn tlodi** – Pwrpas y prosiect hwn fydd mabwysiadu a gweithredu Strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid gan roi ar waith ystod eang o gynlluniau. Bydd gweithredu'r Strategaeth yn cynnwys ymyraethau mewn pedwar maes, sef: Cynhwysiad Digidol (ar y cyd â Gwynedd Ddigidol a Citizens Online), Cynhwysiad Ariannol, Cynhwysiad Economaidd (ar y cyd â Phecyn Gwella Mynediad Pobl i Waith), ac Ymateb i Ddiwygio Lles.

**Cynnydd y Prosiect:** Adroddais y tro diwethaf mai Tlodi Gofodol a Thlodi Poblogaeth yw blaenoriaeth y strategaeth a'n bod wedi cytuno i symud ymlaen i weithredu'r rhaglen waith.

***Tlodi Gofodol*** – Y cymunedau hynny sydd yn dioddef fwyaf o ran tlodi. Byddwn yn blaenoriaethu'r cymunedau hynny sydd yn barod yn derbyn cefnogaeth trwy gynlluniau cenedlaethol, ond hefyd yn rhoi sylw i'r cymunedau eraill yng Ngwynedd sy'n dioddef o dlodi.

***Tlodi Poblogaeth*** - Rhai grwpiau o'r boblogaeth yn benodol e.e. Aelwydydd un rhiant sydd ag incwm isel.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i wyro adnoddau dydd i ddydd a'r targedu cyfredol sy'n digwydd (Cymhwysiad Ariannol, Digidol) ar sail blaenoriaethau'r strategaeth.

Gweithgarwch arall sy'n mynd rhagddo yw bod staff budd-daliadau, treth Cyngor ac Adran Economi a Chymuned wedi derbyn hyfforddiant mewn llythrennedd ariannol er mwyn gallu cefnogi unigolion mewn angen. Law yn llaw hefo hyn wedyn mae sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi eu cynnal ar y cyd gyda banciau er mwyn codi ymwybyddiaeth o faterion ariannol. Mae sesiynau mewn Llyfrgelloedd yn cael eu cynnal ar draws y sir er mwyn cynnig cefnogaeth ariannol a digidol.

**T9 - Strategaeth Cyflenwad Tai –** Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

**Cynnydd y Prosiect:**

**Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig** - Sefydlu'r model ariannu er mwyn cynyddu'r tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, a rhagwelir y byddwn wedi dechrau adeiladu cyfanswm o 31 cartref newydd i drigolion yn ystod 2017/18.

Gwaith o gyflwyno tri chais cynllunio yn mynd yn ei flaen gyda'r bwriad o ymgynghori yn lleol ar gynllun Penygroes, sydd y mwyaf aeddfed o'r tri, ym mis Medi. Pe byddai'r tri cais cynllunio yn llwyddiannus, byddai hyd at 39 o gartrefi yn cael eu darparu ar draws Gwynedd.

**Tai gwag yn ôl i ddefnydd** - Byddwn hefyd yn anelu i ddatblygu rhwng 10-15 o unedau tai gwag yn ôl i ddefnydd, sydd yn ychwanegol i'r cyfanswm blynyddol o 40 i 50 uned.

Cyfarfod ar y cyd gyda thîm tai gwag a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi ei gynnal er mwyn rhannu gwybodaeth am ba adnoddau sydd ar gael gyda bwriad o edrych ar ddarparu tai a chefnogaeth o bosib i bobl ddigartref. Rydym yn y broses o gysylltu hefo pherchnogion tai sydd wedi datgan dymuniad i werthu a bydd y drafodaeth yn cymryd lle yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd yn rhan o waith dydd i ddydd y Gwasanaeth, ac mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo fel y disgwyl.

Ers dechrau'r flwyddyn mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ddod a mwy na 20 tŷ Gwag yn ôl i ddefnydd.

**Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref** - Rhagwelir y bydd angen gwneud gwaith pellach yn ystod 2016/17 cyn cychwyn gweithredu ar ddatblygu darpariaeth ar gyfer pobl digartref.

Cyfarfod dechreuol wedi cymryd lle a gwaith o gasglu gwybodaeth am beth yw' r anghenion ar gyfer cefnogi pobl digartref yn cymryd lle.

**Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth** - Byddwn wedi adnabod yr ardal lle mae angen darpariaeth i bobl hyn, a'r math o ddarpariaeth sydd ei hangen. Bydd yr argymhellion a gyflwynwyd fel rhan o'r Strategaeth Letya Pobl Hyn yn cael eu gweithredu o fewn y gwaith hyn yn ogystal ag unrhyw argymhellion o brosiect Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd (G7).

Cyfarfod wedi ei drefnu gyda Gwasanaeth Comisiynu a Chymdeithasau Tai i ddadansoddi data o ran yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod ac i weld pa fylchau sydd yn bodoli. Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn i ni o'r math o ddarpariaeth sydd ei angen yn yr ardaloedd sydd wedi nodi yn y Strategaeth Letya Pobl Hyn.

## 4.0 Perffomiad

Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

Adroddais y tro diwethaf fod gwaith wedi dechrau o ran cadarnhau pwrpas yr unedau Gofal Cwsmer (Cyswllt Cwsmer, Cofrestru, Gwybodaeth a Thîm y We) a pa fesuryddion y dylid defnyddio i fesur y pwrpas hwnnw. Mae staff yn rhan annatod o'r broses yma ac fel rhan o hyn hefyd maent yn ystyried beth sydd yn eu rhwystro rhag cyflawni eu pwrpas.

Er bod Tîm y We yn y broses o finiogi eu pwrpas a'u mesurau maent yn ymateb yn rhagweithiol i'r wybodaeth sydd ganddynt a be yn union mae eu cwsmeriaid yn dweud wrthynt. Yn eu hymdrechion i geisio gwella'r wefan yn barhaus, ar hyn o bryd un o'r prif fesurau sydd yn cael ei ddefnyddio yw defnyddwyr y wefan sy'n anfodlon neu'n methu canfod gwybodaeth. Ymhellach i hyn wedyn ceisir darganfod pam eu bod yn anhapus neu'n methu canfod gwybodaeth. Wrth ddeall y rheswm pam mae'r modd ymateb i'r gwyn neu sylw e.e. Yn ddiweddar mae nifer o geisiadau wedi bod am finiau a sawl un wedi nodi fod y ffurflen gyffredinol sydd yn bodoli ar gyfer archebu ddim yn rhwydd i'w defnyddio. Mewn ymateb i hyn mae wedi bod yn bosib cyflwyno ffurflen fwy penodol a phwrpasol ar y wefan er mwyn archebu biniau.

Hyd nes y bydd y mesurau newydd wedi eu cadarnhau ac mewn lle ar gyfer adrodd byddaf yn adrodd ar y mesurau cyfredol sydd yn Atodiad 1. Mae rhai o fesurau cyfredol y gwasanaeth yn dangos rhywfaint o ddirywiad eleni o gymharu â pherfformiad y blynyddoedd cynt. Er enghraifft canran y galwadau sydd ddim yn cael eu hateb gan Galw Gwynedd. Un o'r prif resymau am hyn yw lleihad diweddar mewn saff, sydd wedi golygu fod y cyfartaledd ateb y ffon wedi cynyddu, a chwsmeriaid felly yn fwy tebygol o roi'r ffon i lawr.

Mae gwaith yn parhau i fynd ymlaen o ran cadarnhau pwrpas a pa fesurau sy'n mesur y pwrpas hwnnw ar draws y maes Tai yn ogystal. Adroddais y tro diwethaf fod yr Uned Ddigartrefedd yn adrodd ar y nifer y dyddiau y mae wedi cymryd i ddatrys problem digartref (H.y. o'r pwynt cyswllt cyntaf hyd at y datrysiad)**.** Mae cyfartaledd y dyddiau ar gyfer cyflawni wedi disgyn yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o 164 diwrnod yn 2012/13 i yn 69 diwrnod yn 2015/16. Mae perfformiad diweddar rhwng 01.04.16 a 17.06.16 yn dangos fod y cyfartaledd dyddiau yn parhau i leihau yn raddol a bellach ar gyfartaledd o 67.5 diwrnod.

Mae mesurau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cael eu casglu a'u hadrodd yn flynyddol ar hyn o bryd ac mae angen penderfynu pa rai sydd fwyaf defnyddiol ac sydd angen eu casglu'n fwy cyson – neu wrth gwrs datblygu rhai o'r newydd os oes angen. Rhagwelir y bydd y gwaith yma'n cael ei wneud law yn llaw hefo'r gwaith o ail fodelu gwasanaeth.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell wedi llwyddo yn 2015/16 i gyflawni 16 o'r 18 hawl graidd y Safonau yn llawn, a chyflawni 2 yn rhannol. Nid oedd modd i'r Gwasanaeth cyflawni'r hawliau sydd yn ymwneud a chefnogaeth i ddefnyddwyr yn bennaf oherwydd lefel staffio isel y gwasanaeth. Rwyf wedi adrodd ar lefel staffio i'r Cabinet yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth gan nodi nad oedd y drefn bresennol yn gynaliadwy ac roedd hynny yn ystyriaeth wrth lunio Strategaeth newydd 'Mwy na Llyfrau' ar gyfer y Gwasanaeth. O'r 7 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, llwyddodd Gwynedd cyflawni 2 yn llawn, cyflawni 5 yn rhannol. Er cyflawni'n gryf iawn yn y gorffennol, mae Gwynedd wedi methu rhai o'r targedau yn erbyn y fframwaith safonau presennol yn bennaf ac eto oherwydd lefel staffio'r gwasanaeth - nid oes modd i'r gwasanaeth i gynnig yr ystod o gymorth i ddefnyddwyr a ddisgwylir gan y safonau.

## 5.0 Sefyllfa Ariannol/ Arbedion

Mae cyfanswm fy nghynlluniau arbedion effeithlonrwydd a thoriadau ar gyfer eleni gyfwerth a £490,138, ac mae'r cynlluniau i gyd wedi eu gwireddu oni bai am un cynllun sy'n ymestyn i 2017/18. Disgwylir y bydd y rhan perthnasol o'r cynllun hwn (£12,000) yn cael ei wireddu yn fuan.

## 6.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n dda gweld y prysurdeb o ran ceisio gwireddu addewidion y Cynllun Strategol. O ran adnoddau i bob di-gartref, rwy'n ymwybodol o waith diweddar gan Ymchwiliad Craffu yn nodi pwysigrwydd sicrhau digon o ddarpariaeth ac amrywiaeth yn y ddarpariaeth hynny oherwydd twf posib mewn achosion o bobl yn cyflwyno eu hunain fel rhai sydd yn ddi-gartref.

O ran y Gwasanaeth Llyfrgell, mae adroddiad pwysig arall gerbron y Cabinet am gyfeiriad y Gwasanaeth i'r dyfodol. Mae perfformiad Galw Gwynedd yn destun pryder a deallaf bod trafodaethau mewnol ar y gweill i weld beth y gellir ei wneud i adfer y sefyllfa hynny.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Mesurau Perffomiad

**Dogfennau Cefndirol**

Dim